



Cysylltu Bywydau -
Lleoli Oedolion yng Ngorllewin Cymru

Shared Lives -
Adult Placement in West Wales

Gwasanaethau Lleoli Oedolion yng Ngorllewin Cymru

Canllawiau i Ddefnyddwyr Gwasanaethau



cefnogipobl
supporting people



supporting independence
cefnogi annibyniaeth

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH



Croeso i Gynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Lleoli Oedolion Sir Gâr.

Felly, Rydych Chi'n Meddwl Efallai Bod Y Gwasanaeth Lleoli Oedolion Yn Iawn I Chi?

Cyn i chi wneud eich dewis, mae'r Canllawiau hyn i'r Gwasanaethau Lleoli Oedolion yn anelu at roi llawer o wybodaeth i chi, i'ch helpu i wneud y dewis iawn.

Beth Yw Lleoli Oedolion A Pham Mae'n Wahanol?

Mae Lleoli Oedolion yn golygu gwahanol bethau, gan ddibynnu pa wasanaeth fyddwch chi'n ei ddewis. Yma, yn y Gwasanaeth a'r Cynllun Lleoli Oedolion, rydyn ni'n anelu at eich galluogi chi i fyw fel pob un arall yn y gymuned.

Er mwyn gwneud hyn, rydyn ni'n archwilio cefndir pobl (eu cymeradwyo) sydd am rannu eu bywydau gyda rhywun sydd, efallai, angen help a/neu ofal i fyw bywydau bodlon a hapus ac sydd am fyw ochr yn ochr gyda nhw. Rydyn ni'n galw'r bobl hyn yn Gynhalwyr Lleoli Oedolion.

Mae Lleoli Oedolion yn wahanol iawn i'r gwasanaethau y byddwch, efallai, wedi eu defnyddio o'r blaen. Mae'n wahanol oherwydd ni fyddwch yn cael cefnogaeth yn un o adeiladau'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyda llawer o bobl eraill. Yn hytrach, mae eich gwasanaeth unigol wedi'i leoli yn y gymuned ac yn cael ei ddarparu o gartrefi Cynhalwyr Lleoli Oedolion. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe fyddwch yn cael cefnogaeth unigol gan bobl a gyflwynwyd i chi.

Rydyn ni'n eich rhoi chi wrth galon y gwasanaeth a, gyda'n gilydd, rydym yn cynllunio'r gwasanaethau gyda chi, gan ystyried yr hyn yr ydych ei eisiau a'i angen i'ch galluogi chi i ddatblygu eich sgiliau bywyd a'ch annibyniaeth.

Mae'r Gwasanaeth Lleoli Oedolion Yn Cynnig Amrywiaeth O Ddewisiadau I Chi, A Gwahanol Fathau O Wasanaethau

1. Lleoliadau TYMOR HIR
2. SEIBIANNAU BYR
3. Lleoliadau TYMOR BYR
4. GWASANAETHAU SESIYNOL a DYDD
5. Lleoliadau BRYD



Lleoliad Tymor Hir

Mae llety, cefnogaeth a/neu ofal tymor hir yn golygu eich bod yn byw yng nghartref Cynhaliwr Lleoli Oedolion ac yn rhannu eu bywydau. Mae gennym lawer o Gynhalwyr gwa-hanol, rhai ohonynt â theuluoedd sydd hefyd yn byw gyda nhw. Mae rhai Cynhalwyr yn byw ar eu pen eu hun, mae gan rai swyddi ac mae eraill wedi ymddeol neu'n gweithio gartref. Rydyn ni'n cynllunio'r bobl y byddwch chi'n byw gyda nhw, a'r ffordd yr ydych yn byw, yn unigol gyda chi a phobl eraill yr ydych am iddynt fod yn rhan o'r broses gynllunio. Er enghraifft, eich teulu, cynhaliwr, gweithiwr cymdeithasol neu eiriolwr.

Mae'r Cynllun/Gwasanaeth Lleoli Oedolion yn gofyn i chi gyfrannu (talw) tuag at gost eich lleoliad tymor hir. Fe fyddwn yn rhoi mwy o fanylion i chi ynghylch y gost yn yr adran ar gostau.

Os hoffech chi gael gwybod mwy am ein lleoliadau tymor hir, cysylltwch ag Angela Gunstone neu Steve Thomas, neu un o Swyddogion Lleoli Oedolion y tîm. Rydych yn gallu cysylltu â nhw drwy ffonio 01267 224200

Seibiannau Byr

Byddwch yn aros yng nghartref Cynhalwyr Lleoli Oedolion ac yn rhannu eu bywydau, am gyfnodau byr yn ystod y flwyddyn. Fe allai hyn ddechrau gydag ymweliad byr, o bosib i gael pryd o fwyd yn nhŷ'r Cynhaliwr Lleoli Oedolion neu rhywle yn y gymuned, os fyddai'n well gennych. Fe fydd hyn yn arwain at gyfnod dros nos ac yna, o bosib, penwythnos neu seibiant o wythnos.

Fel arfer, mae Gweithiwr Cymdeithasol/Rheolwr Achosion yn gwneud asesiad angen gyda chi, ac yn cynhyrchu 'cynllun gofal'. Yn ystod y broses hon, efallai y gofynnir i chi lenwi 'Cynllun Oedolyn' hefyd. Efallai y byddwch wedi trafod y nifer o nosweithiau mewn un flwyddyn yr ydych yn gallu eu treulio gydag un o'n Cynhalwyr Lleoli Oedolion. Fel arfer, mae pobl yn trefnu eu cludiant eu hun at eu seibiannau byr os nad ydych wedi cytuno fel arall yn eich cytundeb lleoliad. Efallai y bydd yn bosib i chi barhau gyda'ch gweithgareddau bob dydd arferol yn ystod eich seibiannau byr.

Mae rhai o'n Cynhalwyr Lleoli Oedolion yn cynnig gwyliau thema. Mae hyn yn golygu bod y seibiant yn fwy fel gwyliau, neu rydych yn gallu dysgu pethau newydd fel cadwraeth, ffermio a gofalu am anifeiliaid.

Fe allwch drefnu eich seibiannau trwy ffonio Kath Jenkins a Sharon Abel ar 01267 224200.

Lleoliadau Tymor Byr

Fel lleoliadau tymor hir neu seibiannau byr, darperir y gwasanaeth hwn o gartrefi Cynhalwyr Lleoli Oedolion sydd wedi eu cymeradwyo. Fel arfer, mae lleoliadau tymor byr am gyfnod penodol o amser, ac maen nhw ar gyfer pobl sydd am symud ymlaen i fyw'n annibynnol neu sydd, efallai, yn aros i ddod o hyd i lety parhaol. Weithiau, mae lleoliadau tymor byr yn cael eu defnyddio i asesu anghenion person.

Os hoffech chi gael gwybod mwy am ein lleoliadau tymor byr, cysylltwch ag Angela Gunstone neu Steve Thomas neu un o Swyddogion Lleoli Oedolion y tîm. Fe allwch gysylltu â nhw drwy ffonio 01267 224200.

Gwasanaethau Sesiynol A Dydd

Mae gwasanaethau sesiynol yn debyg i'n seibiannau byr, ond nid ydych yn aros neu'n cysgu dros nos yng nghartref y person sy'n eich cefnogi. Mae'r gwasanaeth hwn yn eich galluogi chi a'ch teulu i gael cefnogaeth yn ystod y dydd, gyda'r hwyr a/neu ar benwythnosau, heb i chi orfod aros i ffwrdd o'ch cartref.

Efallai y bydd gwasanaeth dydd yn rhoi cyfle i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio a'u strwythuro a ddarperir o gartrefi Cynhaliwyr Lleoli Oedolion.

Fe fydd faint o amser yr ydych yn ei dreulio gyda'ch Cynhaliwr Lleoli Oedolion yn cael ei drafod gyda chi a'i gytuno, ac yna'i ysgrifennu yn eich Cytundeb Lleoliad.

Pwy Sy'n Gallu Defnyddio Ein Gwasanaeth?

Os ydych chi dros 18, efallai bod anabledd gennych, rydych yn berson hŷn neu rydych yn oedolyn sy'n agored i niwed, yna efallai y byddwch yn gallu defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan Gynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru.

Beth Os Ydych Chi'n Penderfynu Defnyddio Un O'r Gwasanaethau Hyn?

Os ydych chi'n penderfynu defnyddio unrhyw un o'n gwasanaethau, fe allwch chi gwrdd â Swyddog Lleoli Oedolion a fydd yn sicrhau bod pob un yn cytuno ar Gytundeb Lleoliad cyn i chi dderbyn gwasanaeth. Mae'r Cytundeb Lleoliad yn nodi'r hyn y dylech chi a'ch Cynhaliwr Lleoli Oedolion ei ddisgwyl o'r lleoliad. Fe fydd hefyd yn adlewyrchu eich Cynllun Oedolyn a'ch Cynllun Gofal, a fydd yn cael eu cwblhau gan eich Gweithiwr Cymdeithasol neu Reolwr Gofal.

Beth Yw'r Cam Nesaf?

1. Fe fydd Rheolwr Achosion, Gweithiwr Cymdeithasol neu Gydlynnydd Gofal o Awdurdod sy'n comisiynu, yn llenwi ffurflen gyfeirio gyda chi.
Neu
Fe allwch eich cyfeirio eich hun trwy lenwi ffurflen gyfeirio eich hun.
2. Fe fydd angen i chi a/neu eich Rheolwr Achos, lenwi Cynllun Oedolyn a rhoi Asesiad a Chynllun Gofal i'r Cynllun/Gwasanaeth.
3. Unwaith y derbyniwyd eich cyfeiriad, ac rydym yn credu y gallwn gynnig gwasanaeth i chi, fe fyddwn yn cysylltu â chi a/neu eich teulu neu fe fydd un o'n Swyddogion Lleoli Oedolion yn ymweld â chi.
4. Fe fydd y Swyddog Lleoli Oedolion yn siarad â chi am yr holl wybodaeth a ddarparwyd gennych, yn enwedig eich Cynllun Oedolyn, beth ydych chi'n hoffi/casáu, beth yw eich diddordebau a sut ydych chi am gael eich cefnogi. Fe fydd y ddogfen hon yn helpu'r Cynllun Lleoli Oedolion i'ch cyfateb chi at Gynhaliwr / Teulu Lleoli Oedolion.
5. Yna, fe fyddwch chi'n cwrdd â'r person sy'n addas, yn ein barn ni, i'ch cefnogi chi.

Gelwir y cyfarfod hwn yn gyflwyniad ac, fel arfer, mae'n cymryd lle yn eich cartref chi neu yng nghartref y Cynhaliwr Lleoli Oedolion.

6. Efallai y cewch fwy nag un cyflwyniad, a hynny gyda mwy nag un cynhaliwr.
7. Os yw'r ddau ohonoch yn hapus, fe fyddwch yn cytuno i barhau gyda'r lleoliad ac fe fyddwn yn nodi dyddiad dechrau.
8. Ar yr adeg yma, fe fydd y Swyddog Lleoli Oedolion yn llunio Cytundeb Lleoliad gyda chi a'ch Cynhaliwr. Mae hwn yn gytundeb ynghylch sut hoffech chi gael eich cefnogi a/neu dderbyn gofal.
9. **YDYCH CHI'N GALLU DWEUD NA? - YDYCH.** Os nad ydych chi am barhau gyda'ch lleoliad ar unrhyw gam, hyd yn oed wedi i chi ddechrau derbyn gwasanaeth gyda rhywun, fe allwch chi ddweud **NA**.
10. Adolygiadau – Fe fydd Swyddog Lleoli Oedolion yn cydlynu adolygiad o'r gwasanaethau yr ydych yn eu cael, a sut mae pethau'n mynd, ar ôl cyfnod byr (fel arfer o fewn un mis). Os ydych yn cael gwasanaeth seibiannau byr neu sesiynol/dydd, ar ôl yr adolygiad cyntaf hwn, fe fydd Swyddog Adolygu Cytundebu'r Cynllun/Gwasanaeth yn adolygu eich lleoliad.
Os ydych mewn lleoliad tymor hir, fe fydd Swyddog Lleoli Oedolion yn adolygu eich lleoliad o leiaf unwaith y flwyddyn.

Rydych yn gallu gofyn am adolygiad o'ch gwasanaeth ar unrhyw adeg.

Y Cyfraniadau Ariannol Sydd Eu Hangen Gennych

Mae'r Cynllun a'r Gwasanaeth Lleoli Oedolion yn codi tâl os ydych yn byw mewn lleoliad tymor hir, ac mae hyn yn golygu efallai y bydd yn rhaid defnyddio peth o'r arian a gewch bob wythnos (eich budd-daliadau) neu arian yr ydych wedi'i gynilo, i helpu talu am y pethau sydd eu hangen arnoch neu'r gwasanaethau a gewch.

Os ydych yn cael seibiannau byr neu wasanaethau sesiynol/dydd gan Gynllun/Gwasanaeth Lleoli Oedolion, efallai y bydd yr Awdurdod sy'n eich cyllido yn codi tâl.



Costau Ychwanegol

Dylid nodi hefyd bod angen i chi dalu cost lawn unrhyw weithgareddau yr ydych yn cymryd rhan ynddynt yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys ffioedd mynediad, cinio allan ayb. Nid yw hyn yn golygu talu am eich Cynhaliwr Lleoli Oedolion, os nad ydych wedi cytuno i dalu, mewn amgylchiadau arbennig, ac mae hyn wedi ei nodi yn eich Cytundeb Lleoliad.

Mae eich bwyd wedi'i gynnwys yn eich lleoliadau tymor hir, gwyliau byr a thymor byr, ond nid yw hyn yn cynnwys bwyd mewn bwyty, caffi ayb. Rhaid i chi eich hun dalu costau eich bwyd mewn lleoliadau o'r fath.

Cadw Pobl Yn Ddiogel

Pryderon A Chwynion

Rydyn ni'n parchu hawl unrhyw unigolyn i fynegi pryder neu i gwyno am Gynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru neu Wasanaeth Lleoli Oedolion Sir Gâr, ac fe fyddwn yn ymateb i unrhyw bryderon o'r fath trwy eu harchwilio'n drwyadl, yn gyflym ac yn deg.

1. Mae gan Gyngor Sir Gâr weithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion neu fynegi pryderon. Gelwir y gweithdrefnau hyn yn 'Gwrando a Dysgu' ac maen nhw wedi dod oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru.
2. Rydych yn gallu cwyno'n syth i'r Cynllun dros y ffôn, yn ysgrifenedig, trwy rywun arall neu trwy ddod i'n gweld a dweud wrthym beth sydd o'i le.
3. Fe allwch chi gysylltu â'r Swyddog Cwynion hefyd. Ei henw yw Jane Ruel ac mae'n annibynnol i Gynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Lleoli Oedolion Sir Gâr. Fe allwch gysylltu â Jane yn :

**Adran Cwynion,
Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai,
3 Heol Spilman,
Caerfyrddin.
Rhif Ffôn - 01267 222835
E-bost - SCComplaints@sirgar.gov.uk**

Rydych chi hefyd yn gallu cyfeirio unrhyw gwyn am Gynllun/Gwasanaeth Gorllewin Cymru, ar unrhyw gam, at Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Y swyddog perthnasol lleol yw:-

**A.G.G.C.C
Swyddfa Ranbarthol Gorllewin Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
Caerfyrddin.
SA31 3BT
Rhif Ffôn: 01267 242924**

Diogelu

Ystyr diogelu yw gwarchod hawliau dynol a sifil pobl. Gall person gael ei gam-drin neu ei esgeuluso mewn llawer iawn o ffyrdd. Os ydych o'r farn nad yw eich hawliau dynol a sifil chi neu rywun arall yn cael eu parchu ac os ydych am gael gair â rhywun am hyn, gallwn eich cynghori ynghylch beth i'w wneud ac â phwy y gallwch gael gair.

Mae gwahanol fathau o gam-drin ac esgeuluso megis – corfforol, rhywiol, emosiynol, seicolegol, ariannol, geiriol a sefydliadol.

Rydym yn monitro'r gwasanaethau rydych yn eu cael i sicrhau eich bod yn ddiogel a bod y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn diwallu eich anghenion.



Iechyd A Diogelwch

Beth yw IECHYD a DIOGELWCH?

IECHYD – Lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol llwyr ac nid dim ond absenoldeb clefyd a bregusrwydd (Sefydliad Iechyd y Byd 1946)

DIOGELWCH – Mae diogelwch yn awgrymu sicrwydd, rhyddid rhag peryglon a'r risg o anaf neu niwed.

Er mwyn deall sut allwn ni sicrhau amgylchedd iachus a diogel i fyw ynddo, mae'n bwysig edrych ar ein bywydau yn gyffredinol a meddwl am y pethau sy'n gallu effeithio ar ein iechyd a'n diogelwch.

Fe fydd materion iechyd a diogelwch yn cael eu trafod yn unigol gyda chi, os ydych yn dewis byw neu gael cefnogaeth o fewn unrhyw rai o'n gwasanaethau Lleoli Oedolion. Fe fydd unrhyw gefnogaeth sydd ei angen arnoch, neu unrhyw faterion diogelwch yn ymwneud â'ch cartref / amgylchedd, yn cael sylw yn eich Cytundeb Lleoliad.

Geiriau Yr Ydym Yn Eu Defnyddio O Fewn Lleoli Oedolion A'u Hystyr

Cynhaliwr/wyr Lleoli Oedolion

Dyma'r bobl yr ydych yn aros neu'n byw gyda nhw. Maen nhw wedi cael eu hyfforddi a'u hasesu i fod yn Gynhaliwyr Lleoli Oedolion ac maen nhw'n cael cefnogaeth Swydddog Lleoli Oedolion.

Swydddog Lleoli Oedolion

Y person sy'n rhoi gwybodaeth a chynghor i'ch Cynhaliwr Lleoli Oedolion, ac sy'n cytuno ar y Cytundeb Lleoliad gyda chi ac yn helpu sicrhau bod eich Lleoliad gwaith yn gweithio'n dda i bawb.

Gweithiwr Cymdeithasol, Rheolwr Achosion, Cydlynnydd Gofal

Fel arfer, mae'r person yma'n gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Bwrdd Iechyd Lleol ac mae yno i'ch cefnogi chi. Fe fydd yn helpu trefnu'r pethau y gallai fod eu hangen arnoch, fel gwasanaethau dydd a chludiant.

Fe allwch chi gysylltu â'ch Gweithiwr Cymdeithasol, Rheolwr Achos neu Gydlynnydd Gofal os ydych chi'n poeni am unrhyw beth ac nid ydych chi am siarad â'ch Cynhaliwr Lleoli Oedolion neu'r Swydddog Lleoli Oedolion amdano.

Cynllun Oedolyn

Dyma ble rydyn ni'n ysgrifennu llawer o wybodaeth am y ffyrdd y bydd eich Cynhaliwr Lleoli Oedolion a phobl eraill yn eich cefnogi ac yn eich helpu yn eich Lleoliad.

Cytundeb Lleoliad

Dyma ble rydyn ni'n ysgrifennu'r holl bethau y mae pawb yn cytuno iddynt i helpu eich Lleoliad i weithio'n llwyddiannus.

Eiriolwr

Dyma berson sy'n gallu eich helpu i ddweud yr hyn yr ydych am ei ddweud, neu, os ydych yn dymuno, fe fydd yn gallu siarad neu ysgrifennu ar eich rhan.

Adolygiad o'ch Lleoliad

Dyma'r cyfarfodydd rhyngom ni a'ch Cynhaliwr Lleoli Oedolion i sicrhau bod popeth yn iawn ac i benderfynu os oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'ch Cynllun Oedolyn neu Lleoliad Oedolyn

CYNLLUN LLEOLI OEDOLION GORLLEWIN CYMRU


Tŷ LLWYN PISGWYDD
Lôn Pisgwydd,
Caerfyrddin,
SA31 1SW

Rhif Ffôn: 01267 224200

Ffacs: 01267 224288

E-bost: GwasanaethLleoliadauOedolion@sirgar.gov.uk

MAP O LEOLIAD



Mae'r map hwn yn dangos Gogledd Caerfyrddin,
ac mae'r saeth yn pwyntio at ein swyddfa



Cysylltu Bywydau -
Lleoli Oedolion yng Ngorllewin Cymru

Shared Lives -
Adult Placement in West Wales